

# Fframwaith Lles y Dysgwyr

Grŵp Llandrillo Menai

# Cynnwys

---

Nod	3
Y Pedair Efen	3
Monitro llwyddiant a chefnogi gwelliannau	5
Dulliau Cyfathrebu	5
Dysgwyr	5
Staff	5
Rhieni	5
Gwasanaethau Cefnogi Allanol	5

## Nod

---

Nod Grŵp Llandrillo Menai yw cefnogi lles holl ddysgwyr y coleg. Mae hyrwyddo lles ein dysgwyr yn golygu eu bod yn cyflawni eu cymwysterau'n llwyddiannus ac yn datblygu'n unigolion annibynnol sy'n ymroddgar yn eu cymunedau. Mae'r fframwaith lles yn berthnasol i ddysgwyr Addysg Bellach, Addysgu Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith a Phartneriaid Consortiwm Dysgu Seiliedig ar Waith GLIM.

Nod y Fframwaith Lles yw hyrwyddo:

- Ein Gwerthoedd;
- Fframwaith Lles y Dysgwyr;
- Y Pum Ffordd i Les;
- Cyfleoedd i ddysgwyr gyfranogi drwy gadw'n ddiogel, meithrin gwytnwch a themlo bod ganddynt y gallu i ofalu am eu lles eu hunain.

## Y Pedair Efen

---

Mae i'r Fframwaith Lles bedair elfen sy'n cyfrannu at gael 'coleg iach';

- **Lles Emosiynol a Chymdeithasol**
- **Cadw'n Iach a Heini**
- **Ein Hamgylchedd**
- **Cadw'n Ddiogel**

Datblygwyd Fframwaith Lles Dysgwyr Grŵp Llandrillo Menai mewn ymateb i ddogfen Llywodraeth Cymru ['Addysg Bellach Iach a Chynaliadwy/Y Fframwaith Addysg Uwch'](#).

## Adduned Lles Grŵp Llandrillo Menai

---

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i gefnogi lles ein holl ddysgwyr drwy hyrwyddo a darparu ystod o gyfleoedd a gwasanaethau. Mae gofalu am eich lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol yn bwysig er mwyn sicrhau eich bod yn mwynhau'r profiadau a gewch yn y coleg ac yn llwyddo i gael eich cymwysterau.

Mae'r Adduned Lles yn cefnogi'r Fframwaith Lles ac yn crynhoi ymrwymiad y Coleg i gefnogi iechyd meddwl a lles ein dysgwyr.

### Bydd eich Coleg yn cefnogi eich Lles Emosiynol a Chymdeithasol drwy:

- Godi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl a lles
- Darparu cefnogaeth gan diwtor a chefnogaeth fugeiliol
- Cynnig atgyfeiriadau at wasanaethau cwnsela a gwasanaethau arbenigol
- Darparu sesiynau 'Amser i Chi' ar bob safle
- Hyrwyddo apiau lles i gryfhau gwytnwch dysgwyr a'u gallu i ofalu amdanynt eu hunain

### Bydd eich Coleg yn eich cynorthwyo i fod yn iach a Heini drwy:

- Hyrwyddo clybiau a chymdeithasau
- Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a sesiynau ffitrwydd
- Darparu cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned drwy raglen y Llysgenhadon Actif
- Cynnig pryd iach bob dydd ar bob safle
- Hyrwyddo gweithgareddau corfforol

### Bydd eich Coleg yn eich cynorthwyo i gyfrannu tuag at Amgylchedd Cynaliadwy drwy:

- Hyrwyddo Iechyd Amgylcheddol
- Darparu cyfleusterau ailgylchu ar bob safle
- Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu awyr agored
- Darparu arweiniad ar sut i fod yn amgylcheddol gynaliadwy
- Lleihau ein defnydd o blastig untro

### Bydd eich Coleg yn eich cynorthwyo i Gadw'n Ddiogel drwy:

- Hyrwyddo Diogelu ym mhopeth a wnawn
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar sut i gael perthynas iach â phobl
- Darparu Clinig C-Card
- Cefnogi'r ymgyrch 'Tlodi Mislif'
- Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol

## Monitro llwyddiant a chefnogi gwelliannau

---

Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn cynnull gweithgor Lles lle bydd swyddogion yn adrodd ar gynnydd y gweithgareddau y rhoddwyd cyfrifoldeb iddynt amdanynt. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Rheolwr Prosiectau'r Gwasanaethau i Ddysgwyr fydd llunio adroddiadau bob tymor i'w cyflwyno i'r Tîm Strategol a'r Tîm Rheoli. Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau.

Rhan o'r prosesau monitro fydd gofyn am farn y dysgwyr a bydd eu hadborth yn cyfrannu at y broses o adolygu a datblygu'r Fframwaith Lles. Yn ogystal, defnyddir Aseiad o'r Effaith ar Iechyd i adolygu ac asesu lefelau ymgysylltiad y dysgwyr a'r staff ac i fesur effaith y canlyniadau.

Lle y nodir hynny, bydd y Fframwaith Lles yn hyrwyddo a sefydlu dulliau cenedlaethol a rhanbarthol o ymdrin â Lles.

## Dulliau Cyfathrebu

---

Bydd Strategaeth Lles yn hyrwyddo Fframwaith Lles y Dysgwyr i'r rhanddeiliaid a ganlyn:

### Dysgwyr

- Hyrwyddo'r gweithgareddau drwy'r dudalen 'Ar Fy Nghampws Heddiw' ar Borth y Grŵp;
- Y Fframwaith Tiwtora Personol a'r Calendr Cyfoethogi Profiadau Dysgwyr;
- Cynlluniau Lles Personol;
- EDRAC y Dysgwyr;
- Podlediadau Undeb y Myfyrwyr;
- Instagram/Twitter Rygbi GLIM;
- Cylchlythyr Tymhorol y Pennaeth i gynnwys cyfeiriad at les;
- Cylchlythyr Lles Dysgu Seiliedig ar Waith;
- Astudiaethau Achos i gynnwys Podlediadau a Flogiau fydd yn cael eu dangos ar sianeli cyfryngau cymdeithasol GLIM;
- Datganiadau i'r wasg ynghylch gweithgareddau a chyflawniadau;
- Pob dysgwr i gael y daflen 'Allwn ni'ch helpu chi?'.

### Staff

- Darparu rhaglen hyfforddi ar Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl;
- Y Bwletin Dysgu ac Addysgu;
- Cylchlythyr i rannu astudiaethau achos ac arferion gorau;
- Flogiau a Phodlediadau;
- Y Fframwaith Tiwtora Personol a'r Calendr Cyfoethogi Profiadau Dysgwyr;
- Rhestr o staff cefnogi pob campws;
- Hwb Lles y Dysgwyr (gwybodaeth drwy eDrac y Dysgwyr ar Borth y Grŵp).

### Rhieni a Gwarcheidwaid

- Y daflen 'Allwn ni'ch helpu chi?' i'w chynnwys ar y wefan i hyrwyddo'r gwasanaethau;
- Adran ar y wefan i roi gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid a fydd yn cynnwys Canllawiau i Rieni a Gwarcheidwaid.

### Gwasanaethau Cefnogi Allanol

- Trefnu cyfarfod blynyddol ym mis Hydref/Tachwedd gyda Gyrfa Cymru, Ysgolion, yr Adran Gwaith a Phensiynau a gwasanaethau cefnogi allweddol eraill.  
Phensiynau a gwasanaethau cefnogi allweddol eraill.